

## **Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd**

### **Siarter Plant a Phobl Ifanc**

Dechreuodd y prosiect i ddatblygu Siarter yn 2018 gyda chyfres o grwpiau ffocws oedd yn cynnwys ysgolion, clybiau ieuencid a grwpiau cymunedol. Roedd y bobl ifanc oedd yn rhan o'r grwpiau ffocws yn dod o amrywiaeth eang o gefndiroedd.

Cafodd ystod eang o safbwyntiau eu mynegi yn y grwpiau ffocws, oedd yn amrywio o newidiadau sylfaenol fel darparu peiriannau gwerthu i faterion dyfnach yng nghyswllt ymwybyddiaeth o iechyd meddwl, er enghraifft.

Yna, cafodd yr wybodaeth ei threfnu yn ôl thema allweddol - yr amgylchedd, cysylltiadau, addysg, gwybodaeth, adborth, cyn i'r bobl ifanc eu hunain fynd ati i ddatblygu'r themâu allweddol hyn i greu Siarter Plant.

### **Bwrdd Iechyd Ieuencid Caerdydd a'r Fro**

Dechreuodd y Bwrdd Iechyd y broses o lunio bwrdd ieuencid yn 2018, trwy hysbysebu'n helaeth, a gwahodd pobl ifanc i ddigwyddiad recriwtio yng Nghanolfan Mileniwm Cymru.

Bu'r Bwrdd Ieuencid yn gweithredu ers diwedd 2018 ac mae'n cynnwys 30 o bobl ifanc, gan gynnwys gofalwyr ifanc, pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal, pobl ifanc sy'n cynrychioli lleiafrifoedd ethnig, a phobl ifanc sy'n cynrychioli'r gymuned LHDTG+. Bellach mae gan yr aelodau o'r bwrdd ieuencid laniardiau a chrysau polo! Cyfrannodd y bobl ifanc at ddylunio eu logo eu hunain:

Cafodd yr aelodau o'r Bwrdd nifer o gyfleoedd hyfforddiant a datblygiad personol trwy eu gwaith gyda'r Bwrdd, ac roedd y rhain yn cynnwys hyfforddiant am rolau gwahanol weithwyr proffesiynol yn y byrddau iechyd, diogelu, iechyd rhywiol, hyfforddiant gyda UNICEF, a hyfforddiant o ran sgiliau cyflwyno. Mae'r bobl ifanc wedi rhoi cyflwyniadau ynghylch gwaith y bwrdd ieuencid mewn digwyddiadau pwysig, a hyd yn oed wedi cael eu stondin eu hunain yn Eisteddfod yr Urdd.

Mae'r gwaith mae'r Bwrdd Ieuencid wedi bod yn rhan ohono hyd yn hyn yn cynnwys:

- Lefelau staffio diogel
- Rhaglenni imiwneiddio
- Gwelliannau i'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed
- Cynnwys y radd nyrsio cyn cofrestru (plant) yn y dyfodol
- Cyfweld â staff
- Pwysau iach
- Ymgynghori ar wybodaeth i gleifion/ddefnyddwyr gwasanaethau a dulliau adborth
- Gweithio gyda'r Clinig Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol ynghylch eu rhestr wirio i bobl ifanc
- Helpu i greu llwybr newydd ar gyfer pobl ifanc 16 a 17 oed yn yr adran achosion brys sy'n cynnwys cynnal cyfarfod amlddisgyblaeth bob pythefnos i adolygu nodiadau

- Helpu i greu asesiad newydd ar gyfer pobl ifanc er mwyn sicrhau, pan fyddan nhw'n cyflwyno'u hunain i'r gwasanaethau iechyd, bod eu hanghenion i gyd yn cael eu hateb i'r graddau mae hynny'n bosib
- Cymryd rhan mewn hyfforddiant staff ynghylch Hawliau Plant, a deall datblygiad y glasod
- Helping to create a new assessment for young people to make sure all their needs are met as far as possible when they present to health services
- Involvement in staff training on Children's Rights, and understanding adolescent development